# Cod Ymddygiad ar gyfer Pwyllgorau Cynghori

## Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol

Dyddiad cyhoeddi: 1 Ebrill 2025
Cylch adolygu: Blynyddol
Cymeradwywyd gan: Bwrdd Ofcom 5 Mawrth 2025

# Cynnwys


Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol ... 1
**Cynnwys ... 2**
**Trosolwg ... 3**
**1. Cyflwyniad ... 3**
**2. Rôl Aelodau a Chadeiryddion y Pwyllgorau Cynghori ... 4**
Rôl Aelodau'r Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol ... 4
Rôl Cadeirydd pob Pwyllgor Cynghori Cenedlaethol ... 4
Cyfrinachedd ... 5
Pryderon am gamymarfer posibl ... 5
Polisi diogelwch ... 5
**3. Buddiannau ... 6**
Datgan buddiannau ... 6
Cofrestr Buddiannau ... 6
Buddiant yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio ... 6
Osgoi gwrthdaro posibl arall ... 8
**4. Cyfathrebiadau allanol ... 8**
Yr egwyddor gyffredinol ... 8
Perthynas â'r Llywodraeth ... 8
Siarad yn gyhoeddus neu ymddangos ar y teledu, radio, ar-lein ac mewn print ... 8
Mynd i gynadleddau ... 10
Delio â rhanddeiliaid yn ystod cyfnodau purdah ... 10
**5. Materion eraill ... 10**
Ymddygiad a saith egwyddor bywyd cyhoeddus ... 10
Gweithgareddau gwleidyddol ... 11
Atebolrwydd troseddol a sifil ... 11
Treuliau ... 11
Rhoddion a lletygarwch ... 11
Cofrestr rhoddion a lletygarwch ... 12
Diogelu data ... 13
Cyfyngiadau gadael ... 13
**6. Atodiad: Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus ... 14**
Anhunanoldeb ... 14
Uniondeb ... 14
Gwrthrychedd ... 14
Atebolrwydd ... 14
Bod yn agored ... 14
Gonestrwydd ... 14
Arweinyddiaeth ... 14

# Trosolwg

Mae'n hanfodol bod Ofcom yn cadw ei enw da o ran didueddrwydd, gonestrwydd a safonau proffesiynol uchel.

Ni ddylai pobl o'r tu allan i Ofcom fyth gael unrhyw resymau dilys dros amau a yw barn a buddiannau gwleidyddol neu fuddiannau preifat Aelodau yn dylanwadu ar benderfyniadau Ofcom, neu a fyddai Aelodau'n gallu elwa o'r wybodaeth sydd ar gael iddynt drwy eu gwaith cynghori ar gyfer Ofcom.

Yn unol â hynny, dylai Aelodau Pwyllgor Cynghori Ofcom gydymffurfio bob amser â'r Cod Ymddygiad hwn (ac unrhyw addasiadau y bydd Bwrdd Ofcom yn eu gwneud iddo), a gweithredu'n ddidwyll ac er budd gorau Ofcom.

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'n hanfodol bod Ofcom yn cadw ei enw da o ran didueddrwydd, gonestrwydd a safonau proffesiynol uchel. Ni ddylai pobl o'r tu allan i Ofcom fyth gael unrhyw resymau dilys dros amau a yw barn neu fuddiannau gwleidyddol neu fuddiannau preifat Aelodau yn dylanwadu ar benderfyniadau Ofcom, neu a fyddai Aelodau'n gallu elwa o'r wybodaeth sydd ar gael iddynt drwy eu gwaith.

1.2 Sefydlir Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol Ofcom gan y Ddeddf Cyfathrebiadau (2003); pwrpas y Pwyllgorau yw rhoi cyngor annibynnol i Ofcom ynghylch buddiannau a safbwyntiau pobl sy'n byw yng Nghymru / Gogledd Iwerddon / Lloegr / yr Alban o ran materion cyfathrebiadau. Mae'r Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol hefyd yn gallu, ar gais y Panel Defnyddwyr, rhoi cyngor i'r Panel Defnyddwyr ynghylch y buddiannau a'r safbwyntiau hynny, ond rhaid cael caniatâd Ofcom.

1.3 Gan weithio'n unol â'r safonau angenrheidiol ar gyfer didueddrwydd, gonestrwydd ac uniondeb, mae'n bwysig bod Ofcom yn gallu denu Aelodau sydd â gwybodaeth a phrofiad ar lefel uwch o'r sectorau mae Ofcom yn eu rheoleiddio.

1.4 Fodd bynnag, mae'n bwysig bod Aelodau'n sicrhau nad oes unrhyw argraff o wrthdaro buddiannau – na gwrthdaro go iawn rhwng buddiannau– yn codi mewn perthynas â'u hymrwymiadau eraill. Felly, mae angen i Ofcom fynd ati'n synhwyrol ac yn briodol i reoli gwrthdaro buddiannau posibl sydd gan Aelodau, neu a all godi o bryd i'w gilydd.

1.5 Hefyd, mae angen i Ofcom sicrhau nad yw gweithredoedd Aelodau yn bwrw amheuaeth dros ddidueddrwydd a gwrthrychedd Ofcom. Disgwylir i Aelodau osgoi ymddygiad a allai ddwyn anfri ar Ofcom (neu'r Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol), neu roi argraff o duedd/peidio â bod yn ddiduedd. Rhaid i Aelodau sicrhau bod eu hymddygiad yn gydnaws â Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (sydd wedi'u cynnwys fel atodiad i'r Cod hwn).

1.6 Mae aelodau'n gwasanaethu ar y Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol i gynghori Ofcom ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys mentrau polisi. Byddai'r Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol yn gallu cael eu disgrifio'n unigol fel 'cyfaill beirniadol'. Dylai Aelodau gyflawni'r swyddogaeth honno yn bwyllog ac yn ystyriol. Disgwylir i gydweithwyr Ofcom lynu

wrth werthoedd ymddygiad Ofcom, sef Rhagoriaeth, Cydweithio, Ystwythder a Grymuso, a disgwylir i Aelodau wneud hynny hefyd. Dylai Aelodau drin holl gydweithwyr Ofcom gyda pharch ac urddas, fel y bydd cydweithwyr Ofcom yn trin Aelodau gyda pharch ac urddas.

# 2. Rôl Aelodau a Chadeiryddion y Pwyllgorau Cynghori

## Rôl Aelodau'r Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol

2.1 Mae cyfrifoldebau Aelodau'n cynnwys y materion a ganlyn:

a) fel yr amlinellir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 (y "Ddeddf")[1], cynrychioli buddiannau a safbwyntiau pobl sy'n byw yn y rhan honno o'r DU – y cafodd y Pwyllgor Cynghori ei sefydlu ar ei chyfer – ynghylch materion cyfathrebiadau (fel y'u diffinnir yn y Ddeddf)

b) rhoi cyngor i Fwrdd Ofcom – ar gais – ynghylch gwaith polisi Ofcom, ymarferion ymgynghori a materion eraill, gan gynnwys:

i) unrhyw adroddiad blynyddol perthnasol sy'n rhoi sylw i faterion yn y sector cyfathrebiadau; a

ii) hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cyfryngau

mewn perthynas â'r ardaloedd hynny yn y DU y mae'r Pwyllgor Cynghori wedi'i sefydlu ar eu cyfer;

c) ar gais y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau, rhoi cyngor ynghylch y buddiannau hynny a safbwyntiau'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau (yn amodol ar gael caniatâd Bwrdd Ofcom);

d) ar gais y Bwrdd Cynnwys, rhoi cyngor ynghylch materion sy'n ymwneud â theledu, radio a gwasanaethau cynnwys eraill sy'n cael eu rheoleiddio gan Ofcom;

e) sicrhau bod y safonau uchaf o safbwynt llywodraethu corfforaethol yn cael eu dilyn bob amser; a

f) sicrhau bod y Pwyllgor Cynghori yn cyflawni ei gylch gwaith yn effeithiol, fel y nodir yn ei gylch gorchwyl, fel y bydd yn cael ei addasu o dro i dro.

## Rôl Cadeirydd pob Pwyllgor Cynghori Cenedlaethol

2.2 Mae gan Gadeirydd y Pwyllgor Cynghori gyfrifoldeb penodol dros arwain y Pwyllgor Cynghori ar y materion canlynol:

a) cytuno â Bwrdd Ofcom ar strategaeth i gyflawni ei ddyletswyddau statudol fel y nodwyd yn Neddf Cyfathrebiadau 2003; fel arfer, bydd sesiwn gynllunio'n cael ei chynnal ar ddechrau pob blwyddyn galendr i drafod rhaglen waith ddrafft Ofcom â phob Pwyllgor

[1] ac unrhyw ddeddfwriaeth atodol berthnasol arall neu Orchmynion ynddi

Cynghori, fel y mae wedi'i chyhoeddi yn yr ymgynghoriad ar y Cynllun Gwaith blynyddol. Pwrpas hyn yw nodi elfennau blaenoriaeth sydd o ddiddordeb yn genedlaethol ac y byddent yn dymuno gweithio arnynt;

b) cadeirio cyfarfodydd mewn ffordd sy'n gynhwysol ac yn annog trafodaeth a dadl effeithiol ac adeiladol;

c) rhoi cyngor i Fwrdd Ofcom ar faterion a gedwir i Fwrdd Ofcom mewn perthynas â materion cyfathrebu, gan gynnwys drwy ymgysylltu'n uniongyrchol â'r Aelod Bwrdd perthnasol ar gyfer eu gwlad;

d) sicrhau bod y Pwyllgor Cynghori yn cwrdd yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, a bod cofnodion cyfarfodydd yn cofnodi'r hyn a ddigwyddodd yn y pwyllgor yn gywir; ac

e) asesu perfformiad Aelodau unigol o'r Pwyllgor Cynghori yn flynyddol, a defnyddio hynny fel sail i unrhyw ailbenodiad posibl i'r Pwyllgor Cynghori.

# Cyfrinachedd

2.3 Bydd disgwyl i Aelodau'r Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol ddangos cyfrinachedd llwyr mewn perthynas â gwybodaeth neu ddeunyddiau a fydd yn cael eu rhoi iddynt ar gyfer eu dyletswyddau ar y Pwyllgor ac mewn cysylltiad â hynny.

2.4 Mae Adran 393 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn gosod cyfyngiadau ar unigolion o ran datgelu unrhyw wybodaeth heb gael caniatâd y sawl sydd wedi darparu'r wybodaeth.

2.5 Os bydd unrhyw wybodaeth yn cael ei datgelu yn groes i'r ddarpariaeth honno, mae hynny'n drosedd a allai arwain at hyd at ddwy flynedd o garchar a/neu ddirwy.

2.6 Bydd y cyfyngiadau hyn yn dal yn berthnasol ar ôl i Aelodau roi'r gorau i fod yn Aelodau o fwrdd cynghori Ofcom, mewn perthynas â'r wybodaeth gyfrinachol a gawsant pan oeddent yn y swydd. Pwrpas hyn yw osgoi'r risg bod cwmni penodol yn cael mantais amhriodol dros ei gystadleuwyr drwy gyflogi rhywun a oedd – wrth gyflawni ei ddyletswyddau i Ofcom – yn gallu cael gafael ar wybodaeth dechnegol neu wybodaeth arall y byddai'n deg i'r cystadleuwyr hynny ei hystyried yn gyfrinach fasnachu, neu wybodaeth ynghylch datblygiadau arfaethedig ym mholisi'r Llywodraeth a allai effeithio ar y cwmni hwnnw neu ei gystadleuwyr.

# Pryderon am gamymarfer posibl

2.7 Os yw Aelod am godi pryder ynghylch camymarfer posibl, dylai godi ei bryderon yn y lle cyntaf gyda Chadeirydd y Pwyllgor dan sylw ac Ysgrifennydd y Gorfforaeth.

# Polisi diogelwch

2.8 Gofynnir i Aelodau ddarllen a chydymffurfio â Pholisi Diogelwch Ofcom. Mae'r polisi hwn yn rhoi sylw i nifer o elfennau, gan gynnwys defnydd derbyniol o systemau gwybodaeth, diogelu gwybodaeth, dal gafael a chael gwared ar wybodaeth, delio â thrydydd partïon a diogelwch eiddo.

# 3. Buddiannau

3.1 Rhaid sicrhau nad yw buddiannau'r Aelodau nac aelodau agos o'r teulu (h.y. partneriaid a phlant sy'n ddibynyddion) yn rhoi'r argraff y gallai amgylchiadau personol fod yn dylanwadu ar gyngor cyffredinol y Pwyllgor. Rhaid i holl Aelodau'r Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol weithredu o fewn yr egwyddorion y cytunwyd arnynt ar gyfer gwrthdaro buddiannau mewn swyddi o'r fath.

3.2 Ym mhob achos, mae Ofcom yn cadw'r hawl i benderfynu beth mae gwrthdaro buddiannau posibl neu wirioneddol yn ei olygu, ac i benderfynu a oes modd rheoli gwrthdaro'n synhwyrol drwy ddatganiadau a phrosesau esgusodi (recusals). Pan nad yw hyn yn bosib, mae Ofcom yn cadw'r hawl i derfynu swydd yr Aelod ar unwaith.

## Datgan buddiannau

3.3 Rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau gwirioneddol neu rai posibl cyn derbyn eu penodiad, ac wrth iddynt godi yn ystod y penodiad hwnnw. Gofynnir i'r Aelodau ddatgan ym mhob cyfarfod a yw eu buddiannau wedi newid o gwbl, ac mae'n rhaid iddynt lenwi datganiad newydd bob blwyddyn.

3.4 Cyn i unrhyw eitem berthnasol gael ei thrafod, dylai Aelodau'r Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol ddatgan unrhyw fuddiannau neu gysylltiadau uniongyrchol neu anuniongyrchol sydd ganddynt. Nid dim ond buddiannau ariannol dylid eu datgan ond y rheini sy'n ymwneud â rhyw fudd materol sydd o fantais i'r naill barti neu'r llall. Gall cyfeillgarwch personol, ar wahân i gydnabod, a buddiannau teuluol hefyd fod yn gysylltiad. Os bydd Aelodau'n ansicr, maent yn cael eu cynghori i ddatgan y cysylltiad er mwyn rhoi cyfle i Aelodau eraill benderfynu a yw'n fuddiant posibl ynteu'n fuddiant gwirioneddol. Gellir rhoi hysbysiad cyffredinol o fuddiant, a fyddai'n berthnasol i holl gyfarfodydd y Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol

## Cofrestr Buddiannau

3.5 Mae Ofcom yn cadw cofrestr o fuddiannau'r Aelodau. Mae'r gofrestr yn cael ei diweddaru bob blwyddyn, ac mae gwybodaeth berthnasol yn cael ei chyhoeddi ar wefan Ofcom pan fydd newidiadau'n codi.

3.6 Mae'r gofrestr yn rhoi manylion am benodiadau cyhoeddus ac elusennol Aelodau, swyddi cyfarwyddwyr, cyflogaeth gysylltiedig, cyfranddaliadaethau/buddiannau ariannol perthnasol a gweithgareddau perthnasol aelodau'r teulu (fel y diffinnir ym mhwynt 3.1 uchod).

3.7 Bydd disgwyl i Aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau perthnasol yn flynyddol. Rhwng diweddariadau blynyddol, rhaid i Aelodau roi gwybod i Ysgrifennydd y Gorfforaeth am unrhyw newidiadau i'w buddiannau fel bod modd ystyried natur y buddiant ac, os yw'n briodol, newid y Gofrestr yn unol â hynny.

## Buddiant yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio

### Cyflogaeth

3.8 Yn gyffredinol, bydd Ofcom yn ceisio sicrhau bod amrywiaeth a chydbwysedd y sgiliau ar y Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol yn golygu na ellir ystyried bod un llais nac un buddiant yn dylanwadu'n ormodol ar y cyngor a roddir.

3.9 Rhaid i Aelodau osgoi unrhyw amheuaeth y gellid dylanwadu ar y gwaith a wnânt i Ofcom gyda gobaith neu ddisgwyliad o gael swydd gyda chwmni neu sefydliad penodol yn y dyfodol, ac mae Ofcom yn cadw'r hawl i farnu a oes modd rheoli'r math hwn o wrthdaro.

3.10 Ni chaiff buddiannau ariannol mewn cwmnïau neu wasanaethau sy'n cael eu trwyddedu neu eu rheoleiddio gan Ofcom eu gwahardd yn llwyr, ar yr amod eu bod yn annhebygol o fod yn sylweddol o ran effeithio ar annibyniaeth go iawn neu ymddangosiadol Aelodau sy'n cynnig cyngor i Ofcom. Fodd bynnag, yn ystod eu cyfnod yn y swydd, ni all Aelodau gael eu cyflogi'n uniongyrchol gan sefydliadau y mae Ofcom yn eu rheoleiddio neu'n eu trwyddedu, na chael y mwyafrif o'u hincwm cyflogaeth gan gwmni o'r fath, hyd yn oed os nad ydynt yn cael eu cyflogi felly.

3.11 Efallai y byddai modd caniatáu i Aelodau wneud gwaith ymgynghori achlysurol i gwmnïau mae Ofcom yn eu rheoleiddio neu'n eu trwyddedu, ond dim ond os nad yw'r rôl gyda'r trwyddedai neu'r cwmni hwnnw sy'n cael ei reoleiddio yn peryglu – nac yn ymddangos ei bod yn peryglu – gallu'r Aelod i gynnig cyngor diduedd i Ofcom. Rhaid trafod y mater â Chadeirydd y Pwyllgor perthnasol ac Ysgrifennydd y Gorfforaeth a bydd unrhyw wrthdaro buddiannau ymddangosiadol neu wirioneddol yn cael ei ystyried ynghyd â pha gamau y dylid eu cymryd – a allai gynnwys rhoi gwybod i'r Aelod na all barhau â'i rôl mwyach gyda'r Pwyllgor Cynghori Cenedlaethol perthnasol. Rhaid i unrhyw Aelod sy'n dymuno contractio gydag Ofcom fel trydydd parti ar gyfer gwasanaethau arbenigol ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor ac Ysgrifennydd y Gorfforaeth, ac os yw'n briodol, dylai fynd drwy'r broses dendro gystadleuol arferol.

## Cyfyngiadau ar fuddsoddiadau ariannol

3.12 Rydym yn cydnabod bod cyflogaeth flaenorol yn y sector cyfathrebiadau neu yn un o'r darparwyr gwasanaethau wedi'u rheoleiddio, yn gallu cynyddu gwerth cyfraniad Aelodau at eu gwaith ar Bwyllgor Cynghori Cenedlaethol. Felly, efallai y bydd yn bosibl o bryd i'w gilydd i Aelodau ddal buddsoddiadau ariannol (a phensiynau) mewn sefydliadau sy'n gweithredu yn y diwydiannau mae Ofcom yn eu rheoleiddio, o ganlyniad i gyflogaeth flaenorol.

3.13 Rydym yn defnyddio polisi 'dal neu waredu' ar gyfer Aelodau'r Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol. Mae hyn yn golygu y dylai Aelodau naill ai waredu eu buddsoddiadau ariannol mewn sefydliadau y mae Ofcom yn eu rheoleiddio, neu ddal gafael arnynt drwy gydol eu cyfnod yn y rôl, a'u datgan. Os bydd Aelodau'n dal gafael ar y buddsoddiadau, dylent eu datgan ar gofrestr buddiannau Ofcom.

3.14 Yn ystod eu cyfnod yn y swydd, ni ddylai Aelodau gyfnewid buddsoddiadau mewn sefydliadau y mae Ofcom yn eu rheoleiddio o dan unrhyw amgylchiadau.

## Aelodau agos o'r teulu

3.15 Dylai Aelodau ddatgan unrhyw fuddsoddiadau sydd gan aelodau agos o'u teulu (fel y diffinnir ym mhwynt 3.1 uchod) mewn sefydliadau y mae Ofcom yn eu rheoleiddio neu'n eu trwyddedu. Er nad oes dim byd i rwystro aelodau agos o'r teulu rhag cyfnewid cyfranddaliadau perthnasol, mae Ofcom yn disgwyl i Aelodau fod yn ofalus gydag unrhyw gyfnewid o'r fath, er mwyn osgoi rhoi unrhyw argraff bosibl bod eu rôl fel Aelod wedi

dylanwadu ar unrhyw gyfnewid, neu y byddai’r Aelod – yn unigol neu fel rhan o gwpl/teulu – wedi gallu elwa yn sgil hynny.

3.16 Os oes unrhyw aelodau agos o’r teulu (e.e. partneriaid, brodyr/chwiorydd, plant) yn cael eu cyflogi am dâl mewn sefydliadau y mae Ofcom yn eu rheoleiddio neu’n eu trwyddedu (boed yn wasanaeth ymgynghori neu’n gyflogaeth barhaol), dylai Aelodau ddatgan hynny hefyd.

## Osgoi gwrthdaro posibl arall

3.17 Os oes unrhyw wrthdaro posibl arall, nad yw'n dod o dan baragraffau 3.1 i 3.16 uchod, ni chaiff person sydd â buddiant o’r fath gymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau perthnasol, oni bai fod yr Aelodau sy'n bresennol yn penderfynu’n unfrydol bod modd diystyru’r buddiant. Rhaid i benderfyniadau am gymryd rhan fod o blaid y gwaharddiad mwyaf llym posibl a gynigir gan Aelod.

# 4. Cyfathrebiadau allanol

## Yr egwyddor gyffredinol

4.1 Gall ymddygiad Aelodau wrth gyflawni dyletswyddau mewn rhinwedd bersonol, neu ar gyfer sefydliadau eraill, effeithio ar enw da Ofcom am wneud penderfyniadau annibynnol a diduedd sy’n seiliedig ar dystiolaeth.

4.2 Pwrpas y pwyntiau isod yw sicrhau nad oes gwrthdaro rhwng buddiannau allanol Aelodau a’r cyngor maent yn ei roi i Ofcom.

## Perthynas â'r Llywodraeth

4.3 Y Prif Weithredwr, neu aelodau eraill o’r staff sydd wedi'u hawdurdodi i weithredu ar ran Ofcom, fydd y prif bwynt cyswllt fel arfer rhwng Ofcom a Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban neu Weithrediaeth Gogledd Iwerddon ar faterion o ddydd i ddydd. Bydd Aelodau Bwrdd Ofcom sy’n cynrychioli Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru yn y drefn honno hefyd yn cysylltu’n rheolaidd â chynrychiolwyr eu gweinyddiaethau datganoledig, a gall Aelodau Bwrdd Ofcom ar gyfer Lloegr gysylltu ag arweinwyr lleol ledled y wlad. Rhaid i Aelodau’r Pwyllgor Cynghori Cenedlaethol roi eu cyngor yn annibynnol ar Lywodraeth y DU ac ar y Llywodraethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

## Siarad yn gyhoeddus neu ymddangos ar y teledu, radio, ar-lein ac mewn print

### Ar ran Ofcom

4.4 Ni chaiff Aelodau siarad ar ran Ofcom mewn unrhyw ddigwyddiadau i randdeiliaid, yn nigwyddiadau’r diwydiant nac yn gyhoeddus. Dylai Aelodau fod yn arbennig o ofalus gydag unrhyw wahoddiad i siarad yn gyhoeddus, gan gynnwys siarad â newyddiadurwyr, yn rhinwedd eu rôl fel Aelod o’r Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol. Er bod y Pwyllgorau Cynghori ar wahân i Ofcom, ac nad yw eu Haelodau yn gwneud penderfyniadau ar ran

Ofcom, mae'n bosibl na fydd rhanddeiliaid ehangach yn deall y gwahaniaeth hwnnw bob amser. Dylai Aelodau fod yn ymwybodol o hynny bob tro y byddant yn siarad yn gyhoeddus.

4.5 Mewn unrhyw achos o'r fath, dylai Aelodau o'r Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol drafod â Chadeirydd y Pwyllgor Cynghori a'r Cyfarwyddwr Gwledydd perthnasol yn gyntaf a byddant hwythau, yn eu tro, yn siarad ag Ysgrifennydd Corfforaeth Ofcom neu â'r Cyfarwyddwr Cyfathrebiadau fel y bo'n briodol. Os rhoddir caniatâd, ni ddylai Aelodau ddatgan unrhyw safbwyntiau a allai roi argraff o ogwydd gwleidyddol neu unrhyw fath arall o bleidgarwch.

4.6 Dylai Aelodau hefyd osgoi datgan barn bersonol yn gyhoeddus ar faterion lle mae polisi Ofcom yn cael ei ystyried (gan gofio ei bod yn bosibl iawn bod Aelodau wedi bod yn cynnig cyngor – ac wedi cael gweld gwybodaeth – fel rhan o'r broses o ddatblygu'r polisi), a honno'n farn sy'n seiliedig ar rôl yr Aelod gydag Ofcom. Ni ddylai Aelodau ddatgan barn bersonol pan allai hynny niweidio enw da Ofcom.

## Mewn rhinwedd bersonol ar faterion heb fod yn gysylltiedig â Phwyllgor Cynghori Cenedlaethol

4.7 Nid yw Aelodau'n cael eu gwahardd yn llwyr rhag delio â'r cyfryngau mewn rhinwedd bersonol nad yw'n ymwneud â'r Pwyllgor Cynghori, nac wrth ddilyn diddordeb proffesiynol – er enghraifft, fel perfformwyr, arbenigwyr, beirniaid/adolygwyr (critics) neu sylwebwyr. Nid yw Aelodau'n cael eu gwahardd yn gyfan gwbl rhag: ymddangos ar y teledu neu'r radio; cynhyrchu rhaglenni teledu, radio neu ar-alw; ysgrifennu blogiau/colofnau ar-lein neu mewn cylchgronau neu bapurau newydd; neu wneud cyfraniadau ar gyfryngau cymdeithasol (e.e. X, Facebook, LinkedIn a Google ac ati (gyda'i gilydd, y 'gweithgareddau a ganiateir').

4.8 Gall Aelodau fynegi safbwyntiau personol ar yr amod eu bod yn dweud yn glir eu bod yn siarad neu'n ysgrifennu mewn rhinwedd bersonol yn unig, a'u bod yn datgan eu barn breifat eu hunain ar faterion nad ydynt yn rhan o ystod o gyfrifoldebau'r Pwyllgor Cynghori Cenedlaethol, neu ar faterion sy'n ddadleuol o safbwynt diwydiannol, gwleidyddol neu gyhoeddus sy'n berthnasol iddynt.

4.9 Fodd bynnag, dylai Aelodau fod yn ofalus wrth wneud hynny. Er enghraifft, dylid osgoi sylwadau a allai gael effaith negyddol ar enw da Ofcom/y Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol (gan nodi y dylai'r holl sylwadau neu negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol gael eu hystyried yn rhai cyhoeddus), a sylwadau ar bolisïau Ofcom. Rhaid bod yn ofalus gyda materion sy'n ddadleuol o safbwynt diwydiannol, gwleidyddol neu gyhoeddus a allai beryglu enw da'r Pwyllgor Cynghori am gynnig cyngor diduedd neu wrthrychol. Er enghraifft, gall Aelodau sy'n ymddangos mewn rhinwedd arall fynegi barn bersonol am fater nad yw'n gysylltiedig â'r Panel Cynghori/Ofcom. Fodd bynnag, byddai lobïo neu fynegi barn yn aml am faterion sy'n ddadleuol o safbwynt cyhoeddus, pan fyddai modd ystyried bod hynny'n dylanwadu ar benderfyniadau'r Pwyllgor Cynghori, yn anghydnaws â bod yn Aelod. Cyn postio ar-lein, efallai y bydd Aelodau'n dymuno ystyried:

- A yw hwn yn fater hynod wleidyddol, sensitif neu gynhennus y mae gan bobl farn wahanol iawn yn ei gylch?
- A yw hwn yn fater y mae gan Ofcom swyddogaeth reoleiddio uniongyrchol mewn perthynas ag ef?
- Gan ystyried fy rôl, a allai postio am y mater hwn gwestiynu didueddrwydd neu annibyniaeth Ofcom, neu ganfyddiad y cyhoedd?

4.10 I helpu gyda'r uchod, bydd Aelodau'n cael eu gwahodd i dynnu sylw Cadeirydd y Pwyllgor Cynghori ac Ysgrifennydd y Gorfforaeth (a fydd yn cydweithio â'r cyfarwyddwr perthnasol a'r Cyfarwyddwr Cyfathrebiadau, fel y bo'n briodol) at unrhyw erthygl arfaethedig ar-lein neu mewn papur newydd neu gylchgrawn, at ymddangosiad ar raglen deledu neu radio, neu at gynhyrchu rhaglen o'r fath. Bydd hyn yn gyfle i gael trafodaeth ynghylch sut byddai modd rheoli hynny'n synhwyrol.

### Mynd i gynadleddau

4.11 Mae croeso i Aelodau fynd i ddigwyddiadau i randdeiliaid neu ddigwyddiadau'r diwydiant mewn rhinwedd bersonol, ond dylent ystyried darpariaethau'r cod hwn ar gyfer siarad yn gyhoeddus wrth wneud unrhyw sylwadau mewn digwyddiadau.

### Delio â rhanddeiliaid yn ystod cyfnodau purdah

4.12 Dylai Aelodau osgoi ymweld a/neu gymdeithasu â rhanddeiliaid yn ystod cyfnodau cyn etholiadau neu gyfnodau 'purdah' – hynny yw, pan fydd penderfyniad arwyddocaol ar y gweill sy'n ymwneud â'r rhanddeiliad hwnnw, neu'n effeithio arno.

## 5. Materion eraill

### Ymddygiad a saith egwyddor bywyd cyhoeddus

5.1 Mae'n hanfodol bod Aelodau unigol ac Ofcom yn cadw eu henw da o ran didueddrwydd, gonestrwydd a safonau proffesiynol uchel. Ni ddylai arsylwyr allanol fyth gael unrhyw resymau dilys dros amau a yw barn neu fuddiannau gwleidyddol neu fuddiannau preifat Aelodau yn dylanwadu ar ein cyngor neu ein penderfyniadau, neu a fyddai Aelodau'n gallu elwa ar yr wybodaeth sydd ar gael iddynt yn sgil eu gwaith.

5.2 Mae 7 egwyddor bywyd cyhoeddus yn berthnasol i unrhyw un sydd â swydd gyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n cael eu hethol neu eu penodi i swydd gyhoeddus – yn genedlaethol ac yn lleol – a phawb sy'n cael eu penodi i weithio:

- yn y gwasanaeth sifil
- mewn llywodraeth leol
- yn yr heddlu
- yn y gwasanaeth llys a'r gwasanaeth prawf
- mewn cyrff cyhoeddus anadrannol
- mewn gwasanaethau iechyd, addysg, cymdeithasol a gofal

Mae'r egwyddorion hefyd yn berthnasol i bawb mewn sectorau eraill sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus. Cawsant eu cyflwyno'n gyntaf gan yr Arglwydd Nolan yn 1995, ac maent wedi'u cynnwys yng Nghod y Gweinidogion.

I gael rhagor o wybodaeth am y 7 egwyddor a gwaith y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, ewch i wefan a safle blog y Pwyllgor.

5.3 Rhaid i Aelodau sicrhau bod eu hymddygiad yn cyd-fynd â 7 egwyddor bywyd cyhoeddus, sydd wedi'u hatodi i'r Cod hwn.

## Gweithgareddau gwleidyddol

5.4 I gydymffurfio â statws Ofcom fel rheoleiddiwr annibynnol, mae'n amhriodol i unrhyw Aelod gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth. Mae hyn yn cynnwys dal swydd wleidyddol ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu leol neu ymgeisio am swydd o'r fath, cymryd rhan mewn ymgyrch wleidyddol i gefnogi ymgeisydd/plaid wleidyddol, a chyfrannu mwy na £11,180 i ymgeisydd/plaid wleidyddol mewn blwyddyn galendr[2]. Mae gweithio'n llawn-amser i unrhyw adran o'r Llywodraeth Ganolog, neu fel swyddog yn y gwasanaeth sifil (gan gynnwys yn y gwledydd datganoledig) neu i lywodraeth leol, yn annerbyniol hefyd.

5.5 Os bydd Aelodau'n ansicr, gofynnir iddynt drafod â Chadeirydd eu Pwyllgor Cynghori Cenedlaethol ac Ysgrifennydd y Gorfforaeth.

## Atebolrwydd troseddol a sifil

5.6 Er bod unrhyw achos cyfreithiol a gychwynnir gan drydydd parti yn debygol o gael ei ddwyn yn erbyn Ofcom fel endid corfforaethol, mewn achosion eithriadol gellir dwyn achos (sifil neu, mewn rhai amgylchiadau, achos troseddol) yn erbyn y Cadeirydd neu Aelodau unigol eraill. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd Aelodau'n atebol yn bersonol os byddant yn gwneud datganiad twyllodrus neu esgeulus sy'n arwain at golled i drydydd parti. Mae'n bosibl y bydd Aelodau hefyd yn atebol am dorri cyfrinachedd o dan gyfraith gwlad, neu o dan ddeddfwriaeth masnachu mewnol, os byddant yn camddefnyddio gwybodaeth a gawsant yn rhinwedd eu rôl.

5.7 Fodd bynnag, ni fydd Aelodau sy'n gweithredu'n onest, yn rhesymol ac yn ddidwyll a heb esgeulustod yn gorfod bodloni unrhyw atebolrwydd sifil personol a fydd yn codi wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau i Ofcom, neu wrth eu cyflawni'n honedig. Bydd Ofcom yn indemnio'r Aelodau yn erbyn hawliadau yn yr amgylchiadau hyn.

## Treuliau

5.8 I hawlio treuliau teithio a threuliau eraill, mae'n rhaid i'r gwariant fod yn rhesymol ac yn angenrheidiol ar ran y Pwyllgor Cynghori Cenedlaethol yn unol â Pholisi Treuliau Ofcom. Ni ellir teithio gyda thocynnau dosbarth cyntaf yn gyffredinol, a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd hynny'n cael ei dderbyn. Mae'n rhaid gwneud pob hawliad treuliau ar ffurflen hawlio briodol Ofcom, a rhaid eu cyflwyno o fewn 90 diwrnod i ddyddiad y gwariant. Mae'n annhebygol y bydd treuliau a gyflwynir yn hwyrach na hynny'n cael eu talu.

## Rhoddion a lletygarwch

### Rhoddion

5.9 Mae'n bolisi gan Ofcom i beidio â derbyn rhoddion gan unigolyn na sefydliad, ac i beidio â darparu rhoddion o'r fath. Os bydd unigolyn neu sefydliad yn mynnu rhoi rhodd i Aelod yn

[2] Rhaid cyhoeddi enw rhoddwr ar wefan y Comisiwn Etholiadol os yw'r rhoddion, yn unigol neu ar y cyd, a gaiff eu gwneud gan yr unigolyn hwnnw dros flwyddyn galendr yn cyfateb i swm sy'n uwch na'r ffigur hwn a ddynodir gan y Comisiwn ar unrhyw adeg benodol.

rhinwedd ei rôl fel Aelod, a bod y rhodd yn werth mwy na £10, dylid ei rhoi i elusen a ddewisir gan Ofcom. Gellir derbyn rhoddion sy'n werth llai na £10.

5.10 Rhaid i'r holl roddion sy'n werth mwy na £10 gael eu datgan a'u cofnodi ar y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch.

### Lletygarwch

5.11 Mae'r problemau a'r manteision sy'n gysylltiedig â derbyn lletygarwch yn amrywio'n fawr ar draws y diwydiannau sy'n cael eu rheoleiddio gan Ofcom.

5.12 Dylai Aelodau roi sylw gofalus i'r cyngor yn y paragraff canlynol wrth benderfynu a ydynt am dderbyn cynigion lletygarwch ai peidio. Dylid tybio na ellir derbyn cynigion lletygarwch gan y sefydliadau hynny y mae Ofcom yn eu rheoleiddio. Rhaid i'r Aelod ysgwyddo'r baich o egluro pam y dylid derbyn cynnig o letygarwch.

5.13 Dylai Aelodau ystyried y canllawiau cyffredinol a ganlyn, a all helpu i asesu rhinweddau cymharol derbyn gwahoddiad:

a) Categori 1: Mae'n bosibl y gellir derbyn lletygarwch mewn digwyddiadau sy'n cynnig cyfleoedd i rwydweithio â rhanddeiliaid Ofcom, ac felly a allai hyrwyddo neu gyfrannu at waith Ofcom. Er enghraifft, mynd i ginio gwobrau diwydiant.

b) Categori 2: Mae lletygarwch sy'n gysylltiedig â gwaith a gynigir gan un rhanddeiliad neu drwyddedai yn dderbyniol, pan fydd yn amlwg bod hynny o werth i waith Ofcom ac i'r diwydiant dan sylw yn ehangach. Er enghraifft, cinio gwaith.

c) Categori 3: Dylid gwrthod yn gwrtais unrhyw gynnig lletygarwch sydd o fudd personol i'r sawl a fydd yn derbyn y cynnig os bydd yn anodd cyfiawnhau'r budd i Ofcom, neu os oes risg o duedd ymddangosiadol neu sylw niweidiol. Er enghraifft, gwahoddiadau gan randdeiliaid Ofcom i ddigwyddiadau diwylliannol neu chwaraeon, fel cael cynnig tocynnau i ddigwyddiad Proms y BBC, i rownd derfynol Cwpan yr FA, neu i gyngerdd yn yr O2 Arena.

## Cofrestr rhoddion a lletygarwch

5.14 Bydd Ofcom yn cadw cofrestr o roddion a lletygarwch, lle dylai pob cynnig o letygarwch perthnasol y mae aelodau'r pwyllgor wedi'i dderbyn, neu wedi'i ddarparu, gael ei gofnodi at ddibenion atebolrwydd a chysondeb. Bydd y gofrestr hon ar gael i'r cyhoedd.

5.15 Mae'r gofrestr hon yn cael ei chyhoeddi ar wefan Ofcom. Mae'n rhaid i Aelodau roi gwybod i Ysgrifennydd y Gorfforaeth am yr holl roddion a lletygarwch y maent yn eu derbyn neu'n eu darparu.

5.16 Gall Ysgrifennydd y Gorfforaeth roi cyngor i Aelodau ynghylch rhoddion a lletygarwch perthnasol. Dylid tynnu sylw Ysgrifennydd y Gorfforaeth at unrhyw rai y bydd Aelodau yn eu derbyn, a bydd yr Ysgrifennydd yn diweddaru'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch yn rheolaidd. Nid sensora yw bwriad y broses hon, ond sicrhau yn gyntaf bod gan Ofcom lefel briodol o gynrychiolaeth mewn digwyddiadau neu swyddogaethau, ac yn ail, sicrhau na ellir awgrymu unrhyw duedd wirioneddol nac ymddangosiadol o safbwynt unrhyw randdeiliad penodol.

## Diogelu data

5.17 At ddibenion cydymffurfio â’r ddeddfwriaeth Diogelu Data, mae Aelodau’n rhoi caniatâd i Ofcom gadw, prosesu a chael mynediad at eu data personol at unrhyw ddibenion. Bydd gwybodaeth bersonol (ac eithrio’r buddiannau rydych chi’n eu datgan a’ch bywgraffiad, a fydd yn cael eu cyhoeddi ar y wefan) yn cael ei chadw’n gyfrinachol gan Ofcom ac ni fydd yn cael ei datgelu i drydydd partïon, oni bai ei bod yn ofynnol i Ofcom wneud hynny yn ôl y gyfraith neu pan fydd Ofcom wedi cael caniatâd Aelod ymlaen llaw. Mae datganiad preifatrwydd data cyffredinol Ofcom yn nodi rhagor o wybodaeth.

## Cyfyngiadau gadael

5.18 Ar ôl i’w swydd ddod i ben, rhaid i Aelodau ddychwelyd yr holl eiddo (gan gynnwys y canlynol, ond heb eu cyfyngu i hynny: dogfennau a meddalwedd, cardiau credyd, cyfarpar cyfrifiadurol, allweddi a chardiau diogelwch) sy’n eiddo i Ofcom.

# 6. Atodiad: Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus

## Anhunanoldeb

Dim ond gweithredu er budd y cyhoedd y dylai deiliaid swyddi cyhoeddus ei wneud.

## Uniondeb

Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus eu rhoi eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth i bobl neu sefydliadau a allai geisio dylanwadu'n amhriodol arnynt wrth iddynt wneud eu gwaith. Ni ddylent weithredu na gwneud penderfyniadau er mwyn cael manteision ariannol neu unrhyw fanteision perthnasol eraill iddynt eu hunain, eu teulu neu eu ffrindiau. Rhaid iddynt ddatgan a datrys unrhyw fuddiannau a pherthynas.

## Gwrthrychedd

Rhaid i ddeiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau'n ddiduedd, yn deg ac ar sail teilyngdod, gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau a heb wahaniaethu neu ragfarn.

## Atebolrwydd

Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau ac am yr hyn y maent yn ei wneud, a rhaid iddynt ganiatáu i eraill graffu arnynt yn y modd sydd yn angenrheidiol er mwyn sicrhau hynny.

## Bod yn agored

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau mewn modd agored a thryloyw. Ni ddylai gwybodaeth gael ei chadw rhag y cyhoedd oni fai bod rhesymau clir a chyfreithlon dros wneud hynny.

## Gonestrwydd

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod yn eirwir.

## Arweinyddiaeth

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus ymddwyn yn unol â'r egwyddorion hyn. Dylent fynd ati i hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn yn gadarnhaol a bod yn barod i herio ymddygiad gwael pryd bynnag y'i gwelir.